# YSGOL BRO PLENYDD [2048]

*Gyda dygnwch a dysg fe dyfwn*

Mae Ysgol Bro Plenydd yn :
Ysgol Gynradd Sirol [Meithrin, Babanod a Iau]
Ddyddiol, ddwyieithog, gydaddysgol.
Ysgol gymuned.

## ADRODDIAD Y LLYWODRAETHWYR I RIENI AM Y FLWYDDYN ACADEMAIDD 2021 – 2022

Mae'r adroddiad yma yn cael ei chyflwyno i'r rhieni gan y Corff Llywodraethol i egluro sut y bu i'r Gwasanaeth Ysgolion, Y Corff Llywodraethol a'r Ysgol gyflawni eu dyletswyddau yn ystod y flwyddyn Academaidd a aeth heibio.

**Mae'r adroddiad hon hefyd yn ddarlun o fywyd a gwaith yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf.**

**YR ADRODDIAD**

**DYDDIADAU TYMHORAU Y FLWYDDYN ADDYSGOL NESAF 2023 – 2024 FEL Y GWELIR HWY AR HYN O BRYD –**

**Tymor yr Hydref 2023**
Dydd Gwener, Medi 1af – Diwrnod HMS i'r holl staff addysgu
4/9/23 – 27/10/23 – ysgol ar agor
**Hanner tymor:** Dydd Llun, 30 Hydref - ddydd Gwener 3 Tachwedd
6/11/23 – 22/12/23 – ysgol ar agor
**Gwyliau'r Nadolig** : Dydd Llun, Rhagfyr 25ain – dydd Gwener Ionawr 5, 2024

**Tymor y Gwanwyn 2024**
8/1/24 – 9/2/24 – ysgol ar agor
**Hanner tymor:** Dydd Llun, 12 Chwefror - ddydd Gwener 16 Chwefror
19/2/24 – 22/3/24 – ysgol ar agor
**Gwyliau'r Pasg** : Dydd Llun, Mawrth 25 – dydd Gwener, Ebrill 5ed, 2024

**Tymor yr Haf 2024**
8/4/24 - 26/5/24 – ysgol ar agor
**Calan Mai** (Gŵyl banc): Dydd Llun, 6 Mai
**Hanner tymor:** Dydd Llun, 29 Mai - ddydd Gwener, 2 Mehefin
5/6/24 – 19/7/24 – ysgol ar agor i blant
**Gwyliau'r Haf yn cychwyn** – dydd Gwener, Gorffennaf 22ain



**PWY YW PWY AR Y CORFF LLYWODRAETHOL**

| Aelod | Cyfeiriad | Cynrychiolydd Etholwyd | Swyddog | Cyfrifoldeb Penodol a Chwricwlaidd a Paneli |
|---|---|---|---|---|
| Mrs Natalie Coles-Williams | 33 Stad Dolwar, Y Ffor | Rhieni 2020 | Cadeirydd | Diogelu<br>Anghenion Dysgu Ychwanegol<br>Cydraddoldeb Hiliol<br>Siarter Iaith<br>Cynrychiolydd yr ysgol ar Bwyllgor Y Ganolfan<br>Celfyddydau Mynegiannol<br>Iechyd a Lles<br>Y Dyniaethau<br>Panel Disgyblu a Diswyddo Staff<br>Pwyllgor Disgyblu a Gwahardd Disgyblion<br>Is Banel Personel a Staffio<br>Is Bwyllgor Cwynion |
| Ms Fallon Williams | 14, Cae'r Gromlech, Y Ffor | Rhieni 2018 | Is Gadeirydd | Cynrychiolydd yr ysgol ar Bwyllgor Y Ganolfan<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Panel Apel Disgyblu a Diswyddo Staff<br>Is Bwyllgor /Apel Adolygu Tal<br>Is Bwyllgor Iechyd a Diogelwch ag Adeiladau |
| Mr John Gareth Parry | Maes y Bryn, 34 Stad Dolwar, Y Ffor | Cyfetholedig 2020 | | Plant Mewn Gofal<br>Iechyd a Diogelwch<br>Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>Mathemateg a Rhifedd<br>Pwyllgor Disgyblu a |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | Diswyddo Staff<br>Pwyllgor Disgyblu a Gwahardd Disgyblion<br>Personel a Staffio<br>Is Bwyllgor Staffio<br>Is Bwyllgor Cyllid<br>Is Bwyllgor Iechyd a Diogelwch ag Adeiladau |
| Mrs Heather Ann Russell | 16,Stad Dolwar, Y Ffor | Rhieni 2019 | | Cyfranogi<br>Siarter Iaith<br>Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu<br>Y Dyniaethau<br>Is Banel Staffio<br>Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff<br>Pwyllgor Disgyblu a Gwahardd Disgyblion<br>Is Bwyllgor /Apel Adolygu Tal |
| Mrs Mai Bere | Clogwyn Llwyd, Llwynhudol, Pwllheli | Cyfetholedig 2020 | | Presenoldeb<br>Pwyllgor Apel Disgyblu a Diswyddo Staff<br>Is Bwyllgor /Apel Adolygu Tal<br>Is Bwyllgor Cyllid |
| Y Cynghorydd Peter Read | Parc Glas, Pentreuchaf | Awdurdod Addysg Lleol 2020 | | Panel Apel Disgyblu a Diswyddo Staff<br>Is Bwyllgor Iechyd a Diogelwch ag Adeiladau |
| Mr Dylan Rhys Griffith | Ty Ni, Lon Plas Gwyn, Pwllheli | Awdurdod Addysg Lleol 2020 | | Addysg Perthnasedd<br>Pwyllgor Disgyblu a Diswyddo Staff<br>Personel a Staffio<br>Is Bwyllgor /Apel Adolygu Tal |
| Mr Steffan Jones | Bodfryn, Abererch | Cyngor Cymuned 2022 | | Gwyddoniaeth a Thechnoleg<br>Panel Apel Disgyblu a Diswyddo<br>Is Bwyllgor Cwynion<br>Is Bwyllgor Iechyd a Diogelwch ag Adeiladau |
| Mrs Carys Hughes | Ysgol Bro Plenydd | Pennaeth 2020 | | Personel a Staffio |
| Ms Nerys Davies | 10,Stad Dolwar, Y Ffor | | Clerc | |

Gallwch gysylltu a'r Cadeirydd drwy anfon neges ebost – natcwl@hotmail.com

neu drwy yrru neges at y  Clerc -  DaviesN746@Hwbcymru.net

Cynhelir yr etholiad nesaf i enwebu cynrychiolwyr rhieni ar y corff llywodraethol yn ystod **Tymor yr Hydref 2023**

**Daw tymor cyfredol yr aelodau i ben fel a ganlyn :**

John Gareth Parry – Hydref 2024
Natalie Coles-Williams – Hydref 2024
Fallon Williams – Hydref 2022
Heather Ann Russell – Hydref 2023
Mai Bere – Hydref 2024
Peter Read – Hydref 2024
Dylan Rhys Griffith – Hydref 2024
Steffan Jones – Hydref 2024
Carys Hughes – Hydref 2024

**Cyrsiau a fynychwyd gan aelodau'r corff yn ystod 2021 – 2022**

19/10/21 – Mai Bere – Anwytho Llywodraethwyr Newydd
14/10/21 – John Gareth Parry – Amddiffyn Plant
18/1/22 – John Gareth Parry – Gormodedd a Chyllid
15/2/22 – John Gareth Parry – Dehongli Data
8/3/22 – John Gareth Parry – Gwaharddiadau a Diogelu Data
30/3/22 – Heather Ann Shilvock – Anwytho Llywodraethwyr Newydd
16/6/22 – Heather Ann Shilvock – Cwricwlwm i Gymru
16/6/22 – Fallon Williams – Cwricwlwm i Gymru

**CYFARFODYDD**

Cynhaliwyd cyfarfodydd llawn o'r corff llywodraethol ar y dyddiadau canlynol :

Nos Fercher, Hydref 20fed, 2021
Nos Fercher,Tachwedd 10fed, 2021
Nos Fercher,Mawrth 2ail, 2022
Nos Fercher, Mai 25ain, 2022
Nos Fercher, Mehefin 8fed, 2022
Nos Fercher, Gorffennaf 13eg, 2022

Cynhaliwyd y cyfarfodydd i gyd ar Google Meet.

Yn ogystal cynhaliwyd cyfarfodydd o Is Banel Staffio yr ysgol ar :
Nos Iau, Mehefin 23ain, 2022
Nos Fercher, Mehefin 29ain, 2022

Cynhaliwyd y cyfarfodydd yma wyneb yn wyneb.



**PLANT / STAFF**

**Rhifau'r Ysgol**

Ym mis Medi 2021 roedd 86 o blant ar lyfrau'r ysgol gyda chyfwerth o dair o athrawon llawn amser. Derbyniwyd 14 plentyn i'r Flwyddyn Meithrin a 8 plentyn i'r Flwyddyn Derbyn. Yng Ngorffennaf 2021 trosglwyddwyd 9 plentyn i'r uwchradd.

Collwyd 1 plentyn oherwydd symud ardal yn ystod y flwyddyn a derbyniwyd 2 ddisgybl newydd i'r ysgol.


Ar ddiwedd y flwyddyn addysgol yng Ngorffennaf 2022 roedd 87 o blant ar lyfrau'r ysgol. Rhagwelwyd y byddai 85 o blant ar lyfrau'r ysgol ym Medi 2022, [ gan gynnwys 9 o blant oed Meithrin a 14 plentyn oed Derbyn ]

**Staff**

- Bu Miss Catrin Mair Parry yn gyfrifol am addysgu Dosbarth y Cam Sylfaen am 3 diwrnod yr wythnos a dychwelodd Mrs Hayley Allanson o'i chyfnod mamolaeth i addysgu y Dosbarth Cam Sylfaen am 2 ddiwrnod yr wythnos.
- Derbyniodd yr ysgol Miss Mari Elin Williams yn rhad ac am ddim fel athrawes ANG (Athrawes Newydd Gymhwyso) yn llawn amser fel rhan o gynllun y Llywodraeth yn dilyn effeithiau Covid19. Cynllun am 1 tymor ydoedd hwn yn wreiddiol ond bu iddo barhau am flwyddyn gyfan. Treuliodd yr athrawes ei hamser yn addysgu Dosbarth y Cam Sylfaen.
- Bu Mrs Mererid Prys Owen yn gyfrifol am addysgu Dosbarth Tre'r Ceiri, Blwyddyn 3 a 4 a Mrs Carys Hughes yn gyfrifol am addysgu

Dosbarth Yr Eifl, Blwyddyn 5 a 6.

- Bu Miss Catrin Mair Parry yn cyflenwi CPA (Cyfnodau cynllunio, paratoi ac asesu) ym mhob dosbarth drwy'r ysgol yn ystod y flwyddyn
- Cyflogwyd Miss Fflur Dobson i ymweld ddau ddiwrnod pob wythnos i gymryd unigolion a grwpiau o blant i ddarllen drwy'r grant Rhaglen Cyflymu Dysgu. Bu i hyn barhau am 2 dymor cyn i Miss Dobson dderbyn swydd arall. Yn dilyn hynny cyflogwyd Mrs Sianelen Pleming i ymgymryd a'r cyfrifoldeb.
- Bu Mrs Mererid Prys Owen yn addysgu Cerddoriaeth i ddosbarth Tre Ceiri yn unig a bu Mrs Sianelen Pleming, athrawes lanw yn addysgu Cerddoriaeth i Ddosbarth yr Eifl.
- Parhawyd i gyflogi Mrs Netta Pritchard i weithio fel uwch gymhorthydd yn Adran y Cam Sylfaen yn llawn amser.
- Dychwelodd Miss Cari Ann Jones, cymhorthydd yn y Cam Sylfaen i'w swydd rhan amser ar ol cyfnod mamolaeth. Bu'n rhannu'r swydd gyda Mrs Haf Griffith-Thomas.
- Cyflogwyd Mrs Carys Roberts yn rhan amser am y flwyddyn fel cymhorthydd yn y Cam Sylfaen.
- Bu Mrs Catherine Martin yn gweithio yn yr ysgol fel cymhorthydd ADY (Anghenion Dysgu Ychwanegol) wedi ei chyflogi yn rhan amser gan y Adran ADY y Sir. Cyflogwyd hi yn llawn amser gan yr ysgol drwy grantiau GGA a GDD.
- Cyflogwyd Mrs Dona Povey Jones fel cymhorthydd ADY gan yr Adran ADY.
- Cyflogwyd Ms Selina Ellen Jones yn cefnogi plentyn ag anghenion ymddygiadol dwys a diffyg iaith
- Yn y gegin cyflogwyd Mrs Ellen Jenkins fel cogyddes gyda Mrs Josie Campbell fel cynorthwywraig cegin a Mrs Ann Parry yn gweithio fel cynorthwywraig yn y Clwb Brecwast a goruchwylwraig Cyfnod Cinio.
- Cyflogwyd Mr Eirion Jones fel gofalwr yr ysgol.



**ADEILADAU, TIROEDD a DIOGELWCH**

Trafodwyd y materion iechyd a diogelwch canlynol :

Bu i'r ysgol barhau gyda'r un gweithdrefnau lleihau risg Covid19 drwy gydol Tymor yr Hydref 2021 :

- Yn ol cyfarwyddyd Awdurdod Addysg Gwynedd parhaodd yr ysgol i ddilyn ei Asesiad Risg Covid19
- Pob dosbarth yn parhau yn eu swigod
- Dosbarth y CS mewn swigen hollol arwahan i weddill yr ysgol – heblaw fod dysgwyr yn yr ystafell fwyta gyda gweddill plant yr ysgol yn ystod cyfnod y Clwb Brecwast [ar fwrdd 2 fetr oddi wrth y ddau ddosbarth arall]
- Dosbarthiadau Blwyddyn 3 a 4 a Blwyddyn 5 a 6 mewn swigod arwahan heblaw yn ystod cyfnod y Clwb Brecwast ac Amser Cinio [byrddau arwahan – 2 fetr oddi wrth ei gilydd, Bl 3 a 4 yn cael eu gweini gyntaf ac yn gadael cyn i Bl 5 a 6 adael]
- Trefniadau cyrraedd yn y bore a gadael yn y prynhawn wedi parhau
- Aelodau staff i gyd wedi profi eu hunain yn rheolaidd o leiaf 2 waith yr wythnos gan ddefnyddio prawf lateral flow ac weithiau 3 gwaith ac hyd yn oed yn ddyddiol yn ol y galw
- Aelodau o staff i gyd yn gwisgo masgiau yn ystod y dydd i symud o gwmpas yr ysgol ac wrth weithio yn agosach na 2 fetr gyda dysgwyr
- Parhau i ddefnyddio yr un staff llanw ers mis Medi – i gynnal swigod a lefelau staffio [yn ol cyfarwyddyd yr Awdurdod Addysg]
- Gwersi telyn a pres wedi digwydd drwy gydol y tymor, ymweliadau GwE wedi ail gychwyn
- Ymweliadau yn digwydd heblaw personel ADY a therapyddion iaith
- Cynhaliwyd ymweliadau undydd oddi ar safle o Dymor yr Gwanwyn ymlaen.
- Peidiodd y gwasanaeth glanhau Covid ddwy waith yn ystod y dydd - glanhau wedi oriau'r ysgol gan y gofalwr yn unig ond glanhau ychwanegol ar gael os oes achos o Covid yn yr ysgol
- Canolfan Hamdden Dwyfor wedi ail gychwyn cynnig gwasanaeth i ysgolion – plant CA2 yn ymweld pob dydd Iau ar gyfer gwersi nofio a chwaraeon / cylchol
- Ni fyddai unrhyw weithgareddau yn digwydd ble byddai gofyn i bobl / plant ddod ynghyd i'r un safle.

**Yn ystod Tymor yr Haf 2022 gwelwyd lluniaru ar y gweithdrefnau fel a ganlyn :**

- Gwasanaethau torfol yn cael eu cynnal yn y llyfrgell – drysau pob pen i'r ystafell a ffenestri ar agor

- Plant CA2 wedi mynd yn ol i ddefnyddio toiledau bechgyn / merched yn hytrach na thoiled i bob dosbarth
- Cynhaliwyd nosweithiau rhieni wyneb yn wyneb cyn diwedd Tymor yr Haf
- Cynhaliwyd prynhawn mabolgampau ysgol a gwahoddwyd rhieni iddo
- Gwahoddwyd rhieni plant Meithrin Medi 2022 i gyfarfod croeso torfol
- Croesawyd plant Meithrin Medi 2022 i ddosbarth y Cam Sylfaen am fore
- Digwyddodd tripiau ysgol blynyddol
- Ymwelodd plant CA2 a Chanolfan Hamdden Dwyfor i gymryd rhan mewn mabolgampau dalgylch
- Bu i'r ysgol dderbyn llawer mwy o ymwelwyr
- Nid oedd rheidrwydd i staff brofi eu hunain heblaw eu bod yn arddangos symptomau Covid neu'n teimlo anhwylder iechyd

**Eraill**

- Ni chynhaliodd is banel adeiladau'r corff ei awdit flynyddol o dir ac adeilad yr ysgol ar ddiwedd Tymor yr Haf 2021 oherwydd rheoliadau Covid 19. Yn hytrach bu'r Pennaeth fel Pennaeth Safle yn monitro unrhyw ddiffygion yn y tir a'r adeiladau.

  - Archwiliwyd offer ymladd tan yr ysgol gan Gwmni Tan Llyn.
  - Profwyd system larwm diogelwch yr ysgol gan Gwmni Snowdonia
  - Cynhaliwyd hyfforddiant diogelwch tan i'r holl staff addysgu
  - Cynhaliwyd ymarferion tan yn ystod y 3 tymor




**Archwiliad Cegin**

Cynhaliwyd yr archwiliad blynyddol diwethaf ar y gegin yn ystod y flwyddyn 2018 - 2019. Hysbyswyd y Corff fod Sgor Hylendid o 5 wedi ei ddyfarnu. Oherwydd effeithiau Covid19 ni ddigwyddodd Archwiliad Cegin yn 2021 - 2022.

Nodwyd pryder ynglyn a therfynau iard y Babanod a bod angen ei diogelu ymhellach. Trefnwyd i godi ffens ar y terfyn gyda Stad Lon Ty'r Gof a chefn tai Rhes Eifion.

Trefnwyd hefyd i uwchraddio y system CCTV ac i osod mwy o gamerau o

gwmpas yr ysgol.

Nodwyd bod pryder ynglyn a thyllau ar y brif iard. Eglurwyd fod y Cyngor yn barod i lenwi y tyllau ond ddim yn fodlon rhoi gwyneb newydd iddi.

Adroddwyd fod yr ysgol wedi cymryd rhan mewn cynllun mesur lefelau C02 yn ysgolion Gwynedd. Gyrrwyd y canlyniadau i Adran Eiddo y Sir. Yn dilyn hyn bydd yr Adran yn gweithredu mewn ysgolion ble mae lefelau uchel o C02 mewn ystafelloedd.

Cafwyd ymweliad gan Llinos Jones o'r Adran Eiddo i gynnal yr Archwiliad Safle Blynyddol. Adroddodd i'r Cyngor ar gyflwr yr iard ac fel canlyniad bu 'patcho' darnau mawr o'r iard dros y gwyliau hanner tymor.

Gwasanaethwyd y gwresogyddion drwy'r ysgol dros gyfnod o ddau ddiwrnod

Gosodwyd drws ffrynt a chefn newydd yn yr estyniad

Derbyniodd yr ysgol wasanaeth PAT Testing ble y profwyd diogelwch holl offer trydanol yr ysgol

Daeth y tim Nyrsus Ysgol i imiwneiddio plant rhag ffliw
Daeth Nyrs sgrinio clyw i asesu disgyblion

Tynnwyd yr hen gytiau pren oedd ar iard y Cam Sylfaen ac archebwyd sied fetal yn eu lle a dau 'shipping container'. Cynhaliodd y Cyngor archwiliad ar gyfer y lle gorau i'w gosod.

Rhoddwyd sylw i nifer o eitemau o gwmpas y safle – symud slabiau concrid oedd wedi disgyn o wal hen Ysgol Hafod Lon, trwsio'r giat bren ar Iard y Cam Sylfaen, trwsio drws yn Nholiedau y Merched, trwsio drws tan newydd y ganolfan, gosod 2 fylb newydd yn y Ganolfan, trwsio handleni drws y brif fynedfa, trwsio gwydr o gwmpas y ffan yn ffenestr toiledau y babanod

Clirwyd yr ardd ac atgywieirwyd y gwlau. Yn ogystal torrwyd coeden oedd wedi pydru ynghanol yr ardd, archebwyd llechi i roi ar y ddaear a derbyniwyd mwy o bridd i roi yn y gwlau. Diolch yn fawr iawn i Anti Netta ac i Eirion Jones, y gofalwr am eu gwaith caled.



**CWRICWLWM, HYFFORDDIANT MEWN SWYDD A TREFNIADAETH DOSBARTHIADAU**

Dyma y materion cwricwlaidd a drafodwyd gan y corff yn ystod y flwyddyn :

**Cwricwlwm**
Bu dosbarthiadau'r ysgol yn gweithio ar y themau canlynol yn ystod y flwyddyn :

**Tymor yr Hydref 2021 :**
Bu Dosbarth y Cam Sylfaen yn gweithio ar y thema **Fi Fy Hun a Fy Mhentref** . Bu dosbarthiadau CA2 yn gweithio ar y thema **Fy Ardal Leol.**

**Tymor y Gwanwyn 2022**
Bu Dosbarth y Cam Sylfaen yn gweithio ar y thema **Pwllheli – Ein tref** . Bu dosbarthiadau CA2 yn parhau i weithio ar wahanol agweddau o thema **Fy Ardal Leol.**

**Tymor yr Haf 2022**
Bu Dosbarth y Cam Sylfaen yn gweithio ar y thema Pwllheli – Y Bad Achub. Bu dosbarthiadau CA2 yn parhau i weithio ar wahanol agweddau o thema **Fy Ardal Leol – Coed / Y Gromlech**

**Blaenoriaethau Y Cynllun Datblygu Ysgol 2021 - 2022**

Yn dilyn arfarniadau 2020 – 2021 penderfynwyd gosod y blaenoriaethau canlynol ar gyfer Cynllun Datblygu Ysgol 2021 – 2022 :

**Blaenoriaeth 1** : Meithrin gallu pob disgybl i gyfathrebu yn effeithiol yn y ddwy iaith drwy ganolbwyntio yn benodol ar weithgareddau drama ac addysgu geirfa.

O ganlyniad derbyniodd y staff  hyfforddiant dulliau addysgu drama
Archebwyd llyfrau ar ddulliau addysgu drama a datblygu geirfa plant
Roedd cynlluniau'r athrawon wedi sicrhau sesiynau datblygu geirfa rheolaidd yn digwydd yn y dosbarthiadau, defnydd o ddrama fel strategaeth addysgu yn digwydd yn rheolaidd drwy'r ysgol
Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd rhan y fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da yn eu sgiliau llafar, yn ymgysylltu'n gadarnhaol gyda gwaith drama ac wedi datblygu adnabyddiaeth dda o eiriau o ansawdd.

**Blaenoriaeth 2** : Defnyddio y Dulliau Addysg Awyr Agored er mwyn datblygu safonau holl ddisgyblion yr ysgol ym mhob Maes Dysgu a Phrofiad ac yn benodol felly Y  Dyniaethau a Gwyddoniaeth

O ganlyniad gwnaeth y staff addysgu waith ymchwil i fewn i dduliau addyg awyr agored.
Roedd cynlluniau'r athrawon wedi sicrhau fod y dysgwyr wedi derbyn profiadau addysg awyr agored cyfoethog.
Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi datblygu adnabyddiaeth o enwau strydoedd a lleoedd y neu hardal leol  i safon dda, roedd sgiliau canolbwyntio bron pob disgybl wedi datblygu, roedd bron pob disgybl wedi ymgysylltu'n gadarnhaol hefo'r dysgu yn yr awyr agored a wedi dod yn ddysgwyr chwilfrydig.

**Blaenoriaeth 3** : Datblygu sgiliau pob disgybl er mwyn iddynt allu darllen yn rhugl gan ddeall yr hyn sydd yn y testun

O ganlyniad derbyniodd y staff hyfforddiant pellach mewn datblygu dulliau dysgu darllen amrywiol.
Roedd cynlluniau'r athrawon wedi sicrhau sesiynau addysgu ffoneteg amrywiol yn ogystal a sesiynau datblygu dealltwriaeth o destun ac addysgu dysgwyr i ddarllen yn strategol.
Erbyn diwedd y flwyddyn, roedd y rhan fwyaf o ddisgyblion wedi gwneud cynnydd da yn eu sgiliau darllen yn gydnaws a'u hoed ac yn ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'u darllen.

**Blaenoriaeth 4** : Parhau i baratoi ar gyfer cychwyn gweithredu Cwricwlwm i Gymru ym Medi 2022 drwy readru gwybodaeth gyda staff addysgu a rhieni ac ymgynghori gyda dysgwyr, rhieni a rhanddeiliaid ynglyn a chynnwys cwricwlwm yr ysgol a chychwyn cynllunio y cwricwlwm newydd

O ganlyniad derbyniodd y staff gyflwyniadau gan y pennaeth ar y raglen waith ar gyfer paratoi cyflwyno Cwricwlwm i Gymru yn statudol ym Medi 2022
Erbyn diwedd y flwyddyn roedd y staff addysgu wedi ymgyfarwyddo yn llawn gyda gofynion y Cwricwlwm Newydd, roedd y dysgwyr wedi ymgyfarwyddo a 4 Diben y Cwricwlwm ac roedd rhanddeiliaid yr ysgol wedi derbyn copi o Gynnig Cwricwlwm yr ysgol.



**Clybiau ar ol Ysgol**

**Rygbi Merched**

Cynhaliwyd sesiynau rygbi yn wythnosol wedi oriau'r ysgol ar gyfer merched y ddau ddosbarth hynaf gan Selina Jones o Glwb Rygbi, Pwllheli sydd hefyd yn gymhorthydd yn yr ysgol

**Peldroed Merched a Bechgyn**

Cynhaliodd Gethin Jones o Glwb Peldroed, Y Bala sesiynau peldroed ar ol ysgol i ddisgyblion Blynyddoedd 3,4, 5 a 6 ar ol oriau ysgol.

**Y Gymraeg**




Mae Awdurdod Addysg Gwynedd yn gweithredu polisi dwyieithog trwy holl ysgolion Gwynedd .
Yr amcan yw datblygu gallu plant i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
Yn y Cam Sylfaen, Cymraeg fydd cyfrwng y dysgu. Byddwn yn ymestyn mamiaith y Cymry Cymraeg a gosod sylfeini y Gymraeg i ddisgyblion y mae'r Gymraeg yn ail iaith iddynt.
Yn CA2 bydd y disgyblion yn gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg gan ddatblygu yn fwy fwy y defnydd a wneir o'r Saesneg fel yr ant drwy'r ysgol.
Ysgol naturiol Gymraeg yw Ysgol Bro Plenydd ac mae'r staff a'r disgyblion yn ymdrechu'n galed i gadw naws ac awyrgylch Gymreig yr ysgol.
Parchwn hawl rhieni i ddefnyddio'r iaith a ddewisir ganddynt a byddent yn derbyn gohebiaeth ddwyieithog o'r ysgol.

**Gweithredu blaenoriaethau y Siarter Iaith drwy'r ysgol**

Oherwydd cyfyngiadau Covid 19 ni chynhaliwyd y Pared Dewi Sant arferol ym Mhwllheli. Fodd bynnag yn ystod y flwyddyn parhawyd gyda'r strategaethau canlynol :

- Staff yn annog siarad Cymraeg mewn ffordd bositif a chefnogol
- Cymeriad arbennig o'r enw 'Glenys' wedi ei gwisgo mewn gwisg Gymreig ar gyfer hybu siarad Cymraeg yn cael ei defnyddio yn y Cam Sylfaen
- Dysgu dywediadau, idiomau, diarhebion, hwiangerddi a barddoniaeth yn rheolaidd – pwyslais mawr ar hyn drwy'r ysgol
- Rhoi sylw i draddodiadau / diwrnodau arbennig – Diwrnod Santes Dwynwen yn cael sylw ar Ionawr 25ain, Diwrnod Gwyl Dewi ar Fawrth 1af a Thraddodiadau Dydd Calan.

- Rhoddwyd y profiadau penodol 'Cymreig'yma i'r disgyblion yn ystod y flwyddyn :
  Y Caban Bwyta - dywediadau bwyd a diod ar y wal – plant yn eu defnyddio yn naturiol. Uwch Oruchwyliwyr cinio yn annog plant i siarad yn gywir wrth ofyn am ginio neu ateb Anti Elen.
  DVD o raglenni Cymraeg addas i bob dosbarth drwy'r ysgol wedi eu harchebu ar gyfer Amser Cinio Gwlyb a chyfnodau diwedd prynhawn
  Disgyblion y CS yn gwylio Rhaglenni Cyw

- **Teithiau Cerdded o gwmpas Pentref Y Ffor**
  Gan fod pob dosbarth yn canolbwyntio ar astudio yr Ardal Leol bu'r plant i gyd yn cerdded o gwmpas y pentref sawl gwaith yn ystod y tymor. Bu plant Blwyddyn 5 a 6 yn ymweld a safle y gromlech ar dir fferm y Gromlech hefyd a bu plant Blwyddyn 3 a 4 i lawr at Afon Erch yn Rhydygwystl.  Pwrpas yr ymweliadau hyn oedd i ddod i adnabod y pentref yn well.
- **Sioeau Mewn Cymeriad**
  Daeth cwmni Mewn Cymeriad i'r ysgol i berfformio y canlynol i blant Blynyddoedd 3,4,5 a 6 :
  Tryweyn gyda Megan Llyn
  Taith yr Iaith – cyflwyniad a oedd yn canolbwyntio ar hanes yr iaith Gymraeg gyda Llion Williams

- **Ymweliad John Dilwyn Williams**
  Daeth John Dilwyn Williams o Wasanaeth Addysg Archifdy Gwynedd draw i son am hanes datblygiad pentref Y Ffor gyda disgyblion Bl 3,4,5 a 6

- **Amgueddfa Forwrol Nefyn**
  Bu disgyblion Blwyddyn 5 a 6 ar ymweliad ag Amgueddfa Forwrol Nefyn er mwyn canfod yr hyn sydd yn cael ei arddangos mewn amgueddfa ac i dderbyn cyngor ar sut i gychwyn a chynnal amgueddfa




- **Dathlu Penblwydd Yr Urdd 25/1/22**
  Ymunodd yr ysgol yn nathliadau byw Penblwydd yr Urdd yn 100 oed drwy yrru fideo o bob dosbarth yn canu can Mistar Urdd er ceisio

torri record byd. Gwisgodd plant y Cam Sylfan mewn dillad coch, gwyn a gwyrdd ar gyfer te parti penblwydd yr Urdd. Dysgodd Bl 3 a 4 am Fudiad yr Urdd o'i ddechreuad a'i waith dros ieuenctid Cymru a gwelwyd cyfraniad ysgrifenedig a llun Celyn Lludd Thomas, Blwyddyn 4 ar dudalen flaen Y Ffynnon.

- **Can Ysgol 2/2/22**
  Fel rhan o weithgaredd Grant Datblygu y Gymraeg Ysgolion Dalgylch Glan y Mor, daeth Mared Llywelyn [ bardd, llenor a dramodydd] i weithio gyda phlant CA2 i lunio Can yr Ysgol – wedi ei selio ar hanes a nodweddion Pentref Y Ffor.  Daeth Ceiri a Sion, Stiwdio Pant yr Hwch draw i'r ysgol i recordio plant y ddau ddosbarth hynaf yn canu Can yr Ysgol ar yr alaw – Tafarn yn Nolrhedyn.

Eisteddfod

- **Eisteddfodau Yr Urdd**
  12/3/22 – Bu torreth o unawdwyr yn llefaru a chanu yn ogystal a deuawdwyr yn cystadlu yn Steddfod Cylch yr Urdd ym Mhwllheli. Aeth Tomos Gethin Jones, Nio Efan Jones a Llywelyn Jones [Blwyddyn 4] a dwy ddeuawd, Isabella ac Enlli, Blwyddyn 5 ac Alaw a Leila, Blwyddyn 6 drwodd i gystadlu yn Eisteddfod Sir yr Urdd ym Mangor.
  **Eisteddfod Yr Urdd Sir Ddinbych**
  Cafodd nifer helaeth o ddisgyblion Blwyddyn 3,4,5 a 6 yr ysgol y profiad o gystadlu ar lwyfan yr Genedlaethol yr Urdd eleni. Cystadlodd yr ysgol yng nghystadleuaeth y parti deulais, y cor a deuawd. Llongyfarchiadau i bob plentyn a fu'n cystadlu a diolch yn fawr iawn i Mrs Mererid Prys Owen am ei gwaith caled yn hyfforddi.

  **Clwb Cerdded Plenydd**
  Bu Clwb Cerdded Plenydd [plant Blynyddoedd 3-6] ar eu taith gerdded haf flynyddol. Eleni bu i ni ymweld a Fferm Penfras Uchaf, Llwyndyrus ble y cyfarfyddom a Richard Parry Huws. Cawsom hanes y fferm ganddo cyn iddo ein tywys ar daith gerdded drwy'r caeau i Eglwys Carnguwch ble y cawsom ginio. Yna dringodd pawb i gopa Carnguwch ble mwynhawyd golygfa arbennig yn yr haul !

**Datblygiad Proffesiynol**



| Hyfforddiant | Dyddiad | Pwy | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| Iechyd a Diogelwch a Lles | 1/9/21<br>2/9/21 | Holl staff | Hyfforddiant ar gyfer y staff addysgu ac ategol ar weithdrefnau iechyd a diogelwch a lles yr ysgol |
| Hyfforddiant ar lein – My Concern Rhan 1 / Rhan 2/Rhan 3 | 8/9/21<br>10/11/21<br>9/12/21<br>Oriau gwyll | CH | Hyfforddiant ar raglen ddigidol Diogelu Plant |
| Hyfforddiant Diogelu Lefel 2 Rhan 1 / Rhan 2 ar lein | 20/9/21<br>21/9/21<br>prynhawn | MPO | Hyfforddiant pob 3 blynedd ar gyfer staff dynodedig Diogelu yr ysgol |
| Hyfforddiant Adnewyddu dulliau Shirley Clarke Rhan 1 a 2 – ar lein | 28/9/21<br>12/10/21<br>Oriau gwyll | Athrawon a chymorthyddion | Hyfforddiant ar gyfer dod a dulliau Shirley Clarke ar asesu ffurfiannol a phwerau dysgu yn ol i'r cof |
| Hyfforddiant Rhaglen Ddarllen ar lein | 4/11/21<br>9.30 – 2.30 | FD a CM | Hyfforddiant ar Raglen Ddarllen adferol Prifysgol Bangor gan Dr Gwennant Evans |
| Cyflwyniad i System DBS Newydd y Cyngor | 12/11/21<br>Oriau gwyll | CH | Mae system llenwi ffurflenni DBS a'u gwirio bellach ar lein. CyflwyniadarI sut i ddefnyddio y system oedd hwn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hyfforddiant ADY Cod Newydd Rhan 1 – Osgoi'r Peryglon Hyfforddiant ADY Cod Newydd Rhan 2 – Datrys Anghydfod | 16/11/21<br>24/11/21<br>10 – 11.30 | CH | Hyfforddiant ar y drefn tribiwnlys a chyfrifoldebau yr ysgol unigol a'r AALl |
| Gweminar Rhaglen Partneriaeth Genedlaethol | 25/11/21<br>Oriau gwyll | CH | Gweminar wedi ei drefnu gan GwE – cyflwyniad ar raglan ble mae grwp o ysgolion yn cefnogi ei gilydd |
| Hyfforddiant Sharepoint | 11/1/22<br>17/1/22<br>Oriau gwyll | NP MEW CH MPO HA CMP | Hyfforddiant ar gyfer y staff addysgu ac ategol ar ddefnyddio y safwe newydd sy'n disodli server Gwynedd |
| Hyfforddiant Trawma | 14/2/22<br>15/2/22 | FD | Hyfforddiant Dalgylchol a drefnwyd gan Guto Wyn, Pennaeth Ysgol Glan y Mor yn dilyn derbyn Grant PMG |
| Gweithdy Dylunio'r Cwricwlwm Newydd - ar lein | 1/3/22 | CH | Hyfforddiant a drefnwyd gan GwE sy'n rhan o gyfres – cymorth ar gyfer ysgolion wth gynllunio ar gyfer CIG |
| Gweithdy Hiliaeth | 9/3/22<br>Oriau gwyll | CH | Gweithdy oedd yn canolbwyntio ar ymagweddau pobl tuag at hiliaeth |
| Hyfforddiant Pie Corbett – Talking for Reading | 10/3/22<br>17/3/22<br>24/3/22 | MPO | Hyfforddiant oedd yn canolbwyntio ar sut mae meithrin darllenwyr rhugl sy'n meddu ar ddealltwriaeth o'u |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | darllen ac sy'n mwynhau darllen |
| Cyflwyniad ar Taith 360 | 14/3/22<br>Oriau gwyll | HA CMP MPO CH | Cyflwyniad ar offeryn Newydd INCERTS ar gyfer asesu y Cwricwlwm Newydd I Gymru |
| Sesiwn Briffio- Dull Ysgol Gyfan – Lles ac Iechyd Emosiynol – Bwrdd Iechyd | 18/3/22<br>prynhawn | CH | Cyflwyniad i offeryn Newydd y Bwrdd Iechyd ar gyfer ysgolion ar sut i ddatblygu strategaeth I ofalu am lles ac iechyd emosiynol ysgol gyfan |
| Gweithdy Asesu CIG | 23/3/22<br>Oriau gwyll | CH | Gweithdy gan GwE – arweiniad i ysgolion ar ddatblygu system Asesu i gyd fynd a Cwricwlwm i Gymru |
| Cyflwyniad ar Offeryn Asesu GwE | 28/3/22<br>Oriau Gwyll | HA CMP MPO CH | Cyflwyniad i'r offeryn asesu mae GwE wedi ei lunio i gefnogi y Cwricwlwm Newydd |
| Cyflwyniad Trawma – | 4/4/22<br>Oriau gwyll | holl staff dysgu | Cyflwyniad gan HA a FD – diffiniad o Trawma / arwyddion trawma a sut ddylsai staff dysgu ymateb i arwyddion yn y dosbarth |
| HMS | 25/4/22<br>26/4/22 | Holl staff addysgu | Cynhaliwyd cyfarfodydd CIG ar gyfer yr athrawon – llunio gweledigaeth yr ysgol a gosod yr ysgol yn ei chyd destun |
| Ysgol Dyslecsia | 23/6/22 | CM | Cyflwyniad gan dim |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gyfeillgar | | | ADY Gwynedd ar sut i fod yn ysgol gefnogol i ddisgyblion sy'n dioddef o dyslecsia |
| Hyfforddiant Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb | 27/6/22 | HA | Hyfforddiant ar yr agwedd yma oddi fewn i'r cwricwlwm Newydd |
| Hyfforddiant MAPA | 28/6/22<br>29/6/22 | SEJ | Strategaethau delio gyda ymddygiad heriol |
| Hyfforddiant Cymorth Cyntaf | 29/6/22<br>30/6/22 | NP | Hyfforddiant adnewyddu pob 3 blynedd |
| Prosiect Ein Llais Ni | Dyddiadau amrywiol drwy'r flwyddyn | MPO HA | Prosiect gan GwE ar gyfer datblygu llafaredd traws ysgol |
| Rhwydwaith Iaith, Llythrennedd a CChyfathrebu | Dyddiadau amrywiol drwy'r flwyddyn | MPO | Rhwydwaith ar draws rhanbarth GwE fel bod cynrychiolwyr ardaloedd yn cydweithio ar ddatblygu dealltwriaeth o ofynion Maes Dysgu a Phrofiad Iaith a Llythrennedd |



## Cyfarfodydd Cynhaliol gan y Gwasanaeth Ysgolion a GwE

Cafwyd cyfarfodydd fel a ganlyn :

**GwE –cyfarfod unigol gyda Bethan James, Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Ysgol Bro Plenydd**

Cyfarfod rhithiol i drefnu ymweliad a'r ysgol - 21/9/21

Cyfarfod ar safle – 19/10/21

Cyfarfod rhithiol - 14/12/21
Cyfarfod Rhithiol – 13/1/22
Cyfarfod ar safle - 10/2/22
Cyfarfod Rhithiol - 4/4/
Cysgodi Taith Ddysgu - 4/7/22

## Cyfarfodydd i'r pennaeth ar gais yr Awdurdod Addysg Lleol

Fel Cadeirydd ysgolion dalgylch Glan y Mor, Carys Hughes oedd yn cynrychioli y dalgylch yn y cyfarfodydd GYDCA a'r Ffederasiwn Penaethiaid yn ogystal a chadeirio y cyfarfodydd dalgylch a chydgordio trafodaethau rhwng GwE a'r dalgylch ac Ysgol Glan y Mor a'r ysgolion cynradd.

### Cyfarfodydd Dalgylch Ysgolion Glan y Mor [weithiau'n cynnwys BJ – YCG y dalgylch a Gwern ap Rhishiart – Swyddog Addysg]

16/9/21
7/10/21 – gyda BJ GwE

### Cyfarfodydd GYDCA/ Penaethiaid Gwynedd

Y rhain i gyd yn rhithiol, amryw yn rhai brys ar gais Garem Jackson, Y Pennaeth Addysg yng Ngwynedd

1/9/21 – Cyfarfod Penaethiaid Gwynedd
6/10/21 - GYDCA
3/11/21 – GYDCA
1/12/21 - GYDCA
1/12/21 – Cyfarfod Penaethiaid Gwynedd Brys – Covid19
16/12/21 – Cyfarfod Penaethiaid Gwynedd – Covid19
12/1/22 – GYDCA
2/2/22 - GYDCA
22/3/22 – Diweddariad ar Strategaeth Ddigidol Gwynedd
6/4/22 – GYDCA
4/5/22 -GYDCA
8/6/22 – GYDCA
6/7/22 – GYDCA

### Cyfarfodydd Ffederasiwn

17/9/21 26/11/21 28/1/22 1/3/22 13/5/22 24/6/22

### Cymuned Ddysgu Ysgolion Dalgylch Glan y Mor ac eangach

- Bu Dosbarth Yr Eifl yn gweithio gyda Melangell Gruffudd o Adran Ddrama Ysgol Glan y Mor. Mynychodd CH gyfarfod Teams gyda MG ar 28/9/21 ac ar 20/10/21 er mwyn trefnu y cydweithio. Ymwelodd MG ar 3/11/21 i gynnal gwers Drama gyda Dosbarth Yr Eifl.

- Bu ysgolion y dalgylch yn gweithio ar drefnu prosiect 'can ysgol' ar gyfer diwallu grant Y Gymraeg gyda Sioned Huws o Adran Gymraeg yr ysgol uwchradd. Mynychodd CH gyfarfodydd dalgylchol ar lein wedi oriau ysgol gyda Sioned Huws [YGM] fel a ganlyn :
  9/9/21
  21/10/21
  26/1/22
- 16/6/22 – Bu CH yn Ysgol Eifion Wyn yn cysgodi Taith Addysgu

27/6/22 – Bu NP a HA yn Ysgol Eifion Wyn yn arsylwi yn Adran y Cyfnod Sylfaen

- Daeth Ann Hughes, Ysgolion Iach Gwynedd i gyfarfod HA er mwyn trafod Addysg Berthnasedd a Rhywioldebau yn y Cwricwlwn Newydd yn ogystal ag offeryn asesu Addysg Iechyd Emosiynol yr Awdurdod Iechyd – 3/5/22

- Bu MPO mewn cyfarfod - Rhwydwaith Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu – 9/6/22

**Ymweliadau Iechyd a Diogelwch :**

**Terry Williams o Gwmni Tan Llyn** – archwilio offer ymladd tan yr ysgol
**Technegydd o Snowdonia** - i brofi'r larwm diogelwch
**Technegydd o gwmni Snowdonia** - i brofi'r larwm tan
**Nyrsus ysgol** – brechiad ffliw
**Peiriannydd Nwy** – i wasanaethu y gwresogyddion
**Llinos Jones , Adran Eiddo, Cyngor Gwynedd** – i gynnal archwiliad safle ac adeiladau

**TREFNIADAETH YR YSGOL** 

Roedd yr ysgol wedi ei threfnu i 3 dosbarth yn ystod y flwyddyn :
**Miss Catrin Mair Parry a Mrs Hayley Allanson a Miss Mari Elin Williams – Athrawes ANG** – Plant M, D, 1 a 2 [40 o blant a 27 wedi 11am] gyda chymorth Mrs Netta Pritchard gyda'r plant Meithrin yn mynd adref am unarddeg. Cymorthyddion eraill : Mrs Carys Roberts, Miss Cari Ann Jones, Mrs Haf-Griffith Thomas a Mrs Dona Povey-Jones.

**Mrs Mererid Prys Owen** – Plant Blwyddyn 3 a 4 [24] o blant ar y mwyaf yn ystod y flwyddyn]

**Mrs Carys Hughes** – Plant Blwyddyn 5 a 6 [23] o blant ar y mwyaf yn ystod y flwyddyn] gyda chymorth Mrs Catherine Martin



## GWEITHGAREDDAU

Yng nghyfarfodydd y corff llywodraethol cyfeirwyd at weithgareddau yn cynnig profiadau addysgol ac allgyrsiol i'r plant yn ystod y flwyddyn. **Oherwydd effeithiau Covid19 bu cyfyngiadau ar ymwelwyr a safle yr ysgol yn ogystal ac ymweliadau y disgyblion oddi ar safle ers Tymor y Gwanwyn 2019 felly calonogol iawn oedd cynnydd yn y profiadau yma yn ystod 2020 - 2021 .**

**Ymweliadiau Dewi Wyn**
Daeth y ffotograffydd lleol Dewi Wyn a'i fab, Bedwyr i dynnu lluniau unigolion a theuluoedd ar 21/9/21 a llun ysgol gyfan a Blwyddyn 6 ar 14/6/22

**Ymweliadau Swyddogion Chwaraeon Yr Urdd**
Daeth Rhys a Gethin draw i gynnal sesiynau chwaraeon gyda phlant Blynyddoedd 3,4,5 a 6 am ran health o'r flwyddyn.

**Diwrnod Plant Mewn Angen**
Gwahoddwyd pob plentyn i ddod i'r ysgol mewn dillad lliwiau Pudsey, gwisg nos neu ddillad sbotiog ac i dalu am y fraint. Gwerthwyd cacennau bach Pudsey amser egwyl.

**Gweithgareddau y Nadolig**
Cefnogwyd yr ymgyrch T4U i yrru bocsys esgidiau llawn nwyddau i blant anghenus mewn gwledydd tramor.
Cynhaliwyd Cinio Nadolig yn yr ysgol ar 17/12/21 a bu i Alaw Gwyn Owen Jones a Jac Roberts ddiolch ar ran yr ysgol a chyflwyno anrhegion Nadolig i staff y gegin.
Recordiwyd eitemau Dosbarthiadau Carnguwch a Tre'r Ceiri o'r Cyngerdd Nadolig a gyrrwyd CD allan cyn y gwyliau Nadolig. Yn anffodus oherwydd effeithiau Covid ni lwyddwyd i recordio cyfraniad Dosbarth Yr Eifl ar y pryd ond digwyddodd hynny yn y flwyddyn Newydd.
Cynhaliwyd parti Nadolig yn yr ysgol a chafwyd ymweliad gan Sion Corn ar 21/12/21.

**Cinio Tsiaeniaidd**
Paratodd Anti Ellen ginio Tsiaeniaidd arbennig ar 3/2/22 i ddathlu Blwyddyn Newydd y Tsiaeniaid

**Diwrnod Gwyl Dewi**

Dathlom Wyl ein Nawddsant yn yr Ysgol ar Fawrth 1af. Gwahoddwyd pob plentyn i ddod i'r ysgol unai yn gwisgo crys rygbi, crys peldroed, y wisg genedlaethol neu liwiau coch a gwyrdd. Paratodd Anti Ellen ginio Gwyl Dewi arbennig i ddathlu'r achlysur.

**Diwrnod Y Llyfr**

Gwahoddwyd pob plentyn i ddod i'r ysgol wedi ei wisgo fel ei hoff gymeriad ar 3/3/22 ar gyfer dathlu Diwrnod y Llyfr fel a ganlyn :
Dosbarth y CS – cymeriadau Cyfres Gwlad y Rwla – Angharad Tomos neu Sali Mali
Dosbarth Bl 3 a 4 – cymeriad o un o chwedlau y Brodyr Grimm
Dosbarth Bl 4,5 a 6 – cymeriad o'u hoff lyfr

**Teithiau Addysgol**

Bu Dosbarth Y Cam Sylfaen ar daith gerdded o gwmpas Tref Pwllheli fel rhan o'u hastudiaeth o'u hardal leol.
Bu Dosbarth Blwyddyn 3 a 4 ar ymweliad a Chanolfan Ffensio Glasfryn i weld eu gwaith yn trin coed a'u defnydd ohonynt ar gyfer gwerthiant.
Bu'r dosbarth yma ar daith o gwmpas yr ardal yn ymweld a hen orsafoedd trenau.
Fe ymwelodd Dosbarth Blwyddyn 5 a 6 a safle y gromlech yn Y Ffor ar gyfer sgetsio.

**Cystadleuaeth Sportshall**

Bu tim o 9 plentyn yn cynrychioli yr ysgol yng nghystadleuaeth athletau Sportshall ar gyfer CA2 yng Nghanolfan Glaslyn, Porthmadog am y tro cyntaf ers Covid19. Daeth y tim yn gyntaf ac aethont ymlaen i'r rownd derfynol ym Mangor.

**Cefnogi Iwcrain**

Ar ddydd 18/3/22 gwahoddwyd y disgyblion i ddod i'r ysgol yn gwisgo dillad glas, gwyn a melyn i ddangos cefnogaeth i'r Iwcrain. Talwyd £1 am y fraint a llwyddwyd i gasglu y swm o £234.71 ar gyfer elusen y Groes Goch sy'n cynnal gwaith dyngarol yn yr Iwcrain.

**Dawns i Bawb**

Daeth Cwmni Dawns i Bawb i'r ysgol i gynnal sesiynau wythnosol Dawnsio Stryd gyda Dosbarth Tre'r Ceiri a Dosbarth Yr Eifl.

**Gweithgareddau Chwaraeon yr Haf**

Ymwelodd plant Blynyddoedd 3,4,5 a 6 Ganolfan Hamdden Dwyfor fel a ganlyn ar gyfer Mabolgampau Dalgylch Ysgolion Glan y Mor : 19/5/22 – Blwyddyn 3 a 4
13/6/22 – Blwyddyn 5 a 6. Dyma'r tro cyntaf I hyn ddigwydd ers Covid19.

Bu tim cymysg o fechgyn a genethod o Flwyddyn 5 a 6 ar draeth Morfa Bychan ar 8/7/22 mewn cystadleuaeth Rygbi ar y Traeth, Yr Urdd.

Cynhaliodd Gethin Jones o Glwb Peldroed, Y Bala sesiynau peldroed ar ol ysgol i ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 ar ol oriau ysgol ar nosweithiau Mercher.

Cynhaliwyd Mabolgampau yr ysgol ar brynhawn 6/7/22 a braf iawn oedd croesawu cynifer o deuluoedd atom ar y diwrnod. Cafwyd prynhawn llwyddiannus gyda Ty Gromlech yn fuddugol y tro hwn.

**Cinio Arbennig**
Coginiodd Anti Ellen, y gogyddes ginio ar y thema 'Ar Lan y Mor' ar 17/6/22
Cynhaliwyd cinio ffarwel Blwyddyn 6 ar ddiwrnod olaf y tymor – 15/7/22

**Ymweliad PC Rhiannon Wright**
Fel rhan o raglen gyswllt yr Heddlu ymwelodd PC Rhiannon ar 24/6/22 i gynnal dau weithdy fel a ganlyn :
Blwyddyn 3 a 4 – Bod yn smart wrth ddefnyddio y we fyd eang
Blwyddyn 5 a 6 – Bwlio seibr

**Helfa Drysor**
Cynhaliwyd helfa drysor drwy Eifionydd ar brynhawn Sul, Gorffennaf 3ydd er mwyn codi arian I gronfa yr ysgol. Llwyddwyd i godi £260. Diolch yn fawr i Mrs Mererid Prys Owen am drefnu.

**Gwibdaith Flynyddol yr ysgol**
Cynhaliwyd y gwibdeithiau fel a ganlyn :
Y Flwyddyn Feithrin – Fferm Gwningod, Llanystumdwy
Dosbarth Y Cam Sylfaen – Pili Palas ,Porthaethwy
Dosbarth Blwyddyn 3 a 4 – Castell a Thraeth Harlech
Dosbarth Blwyddyn 5 a 6 – Clwb Peldroed Lerpwl, Yr Amgueddfa Forwrol yn Doc Albert a Mc Donalds ar y ffordd adref

**Ffarwelio a Blwyddyn 6**
Cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ffarwelio a disgyblion Blwyddyn 6 oedd yn ymadael am yr ysgol uwchradd ar ddiwrnod olaf y tymor. Ffarweliodd yr ysgol hefyd a Mrs Mererid Prys Owen, athrawes oedd yn mynd ar secondiad blwyddyn gyda'r Brifysgol ym Mangor, Mrs Haf Griffith -Thomas, cymhorthydd a Mari Elin Williams, Athrawes ANG. Diolchwyd i'r dair am eu gwasanaeth drwy'r flwyddyn.

## CYSYLLTIADAU
## Myfyrwyr / Profiad Gwaith

Croesawyd y canlynol atom yn ystod y flwyddyn o Goleg Meirion Dwyfor :
Mari Lois Jones
Ceri Daniel Ferris
Megan Hughes
Elan Dafydd

## Cyswllt ag Ysgol Glan y Mor

### Gweithgareddau Pontio – ailadroddus

- Ar 6/6/22 talodd Melangell Gruffudd, Erica Jones a Sian Moore o Ysgol Glan y Mor ymweliad er mwyn cynnal gweithdai drama a chwaraeon gyda phlant Blwyddyn 5 a 6. Roedd hefyd yn gyfle i'r plant ofyn unrhyw gwestiynau ynglyn ag unrhywbeth oedd y neu pryderu neu i ganfod mwy o wybodaeth.

- Talodd disgyblion Blwyddyn 6 eu hymweliad cyntaf ag Ysgol Glan y Mor ar 16/6/22. Ymweliad hanner diwrnod oedd hwn. Bu'r ail ymweliad a oedd yn un diwrnod llawn ar 30/7/22 gyda'r plant yn teithio i'r ysgol uwchradd ar y bws arferol sy'n cludo plant yr ardal i Bwllheli.

### Cyswllt a'r Ganolfan Gymdeithasol

Defnyddwyd neuadd y Ganolfan [ yn ol hawl cyntaf yr ysgol arni rhwng 9am a 3.30pm] ar gyfer cynnal gwersi addysg gorfforol.

### CYSWLLT A RHIENI

Cynhaliwyd tair noson rieni dros y ffon ar ddiwedd Tymor yr Hydref er adrodd i rieni ynglyn a chynnydd a datblygiad eu plentyn. Roedd yn gyfle i drafod datblygiad yn erbyn y targedau a osodwyd ar ddechrau'r tymor yn ogystal.

Yn dilyn gyrru adroddiadau blynyddol i'r cartrefi cynhaliwyd nosweithiau rhieni/athrawon wyneb yn wyneb fel a ganlyn :
28/6/22 – Blwyddyn Meithrin
4/7/22 – Blynyddoedd Derbyn -6
5/7/22 – Blynyddoedd Derbyn – 6
6/7/22 – Blynyddoedd Derbyn,1 a 2

Cynhaliwyd prynhawn i rieni y plant bach Meithrin newydd oedd yn cychwyn ym mis Medi ar 28/6/22. Dyma gyfle i'r rhieni a'u plant gael gweld yr ysgol a chyfarfod y staff yn ogystal a derbyn gwybodaeth am yr ysgol.

### Y Gymdeithas Rieni

Fel canlyniad i effeithiau Covid19 ni gynhaliodd y Gymdeithas gyfarfodydd yn ystod y flwyddyn ac ni chynhaliwyd unrhyw weithgareddau codi arian i gronfa yr ysgol.

**PENDERFYNIADAU ERAILL**

Yng nghyfarfodydd y corff llywodraethu yn ystod y flwyddyn penderfynwyd :

- Derbyn Cynllun Datblygu Ysgol 2021 – 2022
- Derbyn / Adolygu y polisiau canlynol :

**Polisi Cwricwlwm (2008)**
**Polisi Ymweliadau Addysgol**
**Rheoli Perfformiad**
**Gweithdrefn Gormodedd**
**Polisi Iaith Ysgolion Gwynedd**
**Polisi Recriwtio a Dethol Diogel**
**Polisi Modiwl Athrawon**
**Polisi ADY – Cod Newydd**
**Polisi Codi Tal**
**Llawlyfr Ysgol Bro Plenydd**

- Sybsideiddio swydd ADY er ymestyn oriau
- Caniatau i MPO ymgeisio am secondiad o'i swydd
- Penderfynwyd hefyd archebu pecyn Cytundeb Lefel Gwasanaeth y Gwasanaeth Ysgolion a Chynllun Absenoldeb gan gynnwys cymorthyddion arno
- Gosod Cyllideb terfynol yr ysgol ar gyfer 2022 – 2023
- Derbyn Trefniadaeth Dosbarthiadau ar gyfer 2022 – 2023
- Derbyn Cynnig Cwricwlwm yr Ysgol ar gyfer Cwricwlwm i Gymru Medi 2022

**Awdit Cronfa – 2021 2022**
Penderfynwyd derbyn yr archwiliad gan Iola Jones, Rhosfawr ar Gronfa yr Ysgol .

**CYLLID**

Gweler yr atodiad am gopi o gyllideb 2021 - 2022 ynghyd a chopi o gyfrifion terfynol y flwyddyn.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae deddf newydd wedi ei chreu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cefnogi dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol [ADY a Ch] sef Bil Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg 2018.

Mae trefniadau mewn lle ar gyfer symud o'r gyn system [AAA] i'r system Newydd [ ADY].

Mae'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn cael ei rhoi ar waith yn raddol rhwng mis Medi 2021 a mis Awst 2024.

Mae Llywodraeth Cymru wedi creu gwefan o'r enw Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad er mwyn rhoi gwybodaeth i rieni ynglyn a :

- Y drefn newydd
- Gwasanaethau ADY a chynhwysiad sydd ar gael ar gyfer cefnogi plant yng Ngwynedd
- Digwyddiadau allweddol ADY yng Ngwynedd
- Mynediad i'r gwasanaeth ADY yng Ngwynedd

Mae'n ofynnol bod gan bob ysgol gyd – gysylltydd A.A.A ymysg ei staff ac aelodau'r corff llywodraethol.

**Yn ystod y flwyddyn 2021 - 2022 Miss Catrin Mair Parry a Mrs Natalie Coles – Williams a fu'n ymwneud a'r cyfrifoldebau uchod.**

**Y System ADY :**

- Os yw'n dod i'n sylw ni neu'n ymddangos i ni y 'gall' fod ADY ar blentyn yna byddwn yn gwneud y penderfyniad os oes angen ymchwilio fod gan y plentyn ADY.
- Os oes gan y plentyn **Gynllun Dysgu Unigol** yn barod neu ein bod fel ysgol eisoes wedi penderfynu ac yn fodlon nad yw anghenion y plentyn wedi newid ac nad oes gwybodaeth newydd yn cael ei gyflwyno neu os yw'r Awdurdod Addysg Lleol yn gyfrifol am y plentyn yna efallai na fyddwn yn penderfynu parhau i ymchwilio.
- Os ydym yn dod i'r penderfyniad fod angen ymchwilio fod gan blentyn ADY yna byddwn fel ysgol yn :
- Dynodi cydlynydd i fod yn gyfrifol am gydlynu'r broses ac yn cofnodi manylion yn ofalus gan hysbysu rhieni a gwahodd rhieni a'r plentyn i gyfarfod cychwynnol.

- Bydd amserlen yn cael ei gosod i'r broses
  Byddwn hefyd yn cynnwys asiantaethau eraill os y credwn fod hynny yn briodol

- Os ydym wedi dod i'r penderfyniad fod gan y plentyn anhawster neu anabledd dysgu yna byddwn yn penderfynu a ydyw'r anhawster neu'r anabledd yn gofyn am ddarpariaeth dysgu ychwanegol

- Os ydyw—bydd yr ysgol yn creu Cynllun Dysgu Unigol ar gyfer y plentyn a bydd cyfle

i'r rhieni a'r plentyn roi sylwadau arno a byddent yn derbyn mynediad iddo

- Bydd yr ysgol yn cynnal ac yn adolygu y CDU
- Os yw'r ysgol yn penderfynu na all ddarparu darpariaeth dysgu ychwanegol digonol i'r plentyn yna bydd yr ysgol yn cyfeirio'r penderfyniad i'r Awdurdod Addysg Lleol
- ·Os bydd yr AALl yn penderfynu fod gan y plentyn ADY yna bydd yr AALl yn creu CDU ar gyfer y plentyn ac yn gyfrifol am ei gynnal a'i adolygu
- Bydd yr ysgol yn helpu yr AALl gynnal y CDU a'i adolygu
- Os bydd yr ysgol yn penderfynu nad oes gan y plentyn ADY yna byddwn yn hysbysu y rhieni a'r plentyn ac yn egluro ein rhesymau
- Byddwn hefyd yn rhoi cyfle i drafod ymhellach
- Trwy'r holl gamau hyn, gwahoddir y rhieni i drafod materion gyda'r ysgol . **Y nod bob amser yw bod yr ysgol a'r rhieni yn cydweithio i gynorthwyo'r plentyn.**

Yn ystod y flwyddyn, roedd mwyafrif o 8 plentyn ar gofrestr **ADY** yr ysgol.

Dyrannwyd arian gan yr Awdurdod yn benodol gyfer ariannu swydd cymorthyddion [ Catherine Martin, Dona Povey Jones a Selina Ellen Jones] i weithio un i un gyda disgyblion ADY ym mhob dosbarth. Yn ogystal defnyddiodd yr ysgol gyllid a grantiau i archeb deunyddiau datblygu sgiliau llythrennedd, rhifedd a synhwyraidd ar gyfer y disgyblion ar y gofrestr yn ogystal a disgylion grwpiau targed. Defnyddiwyd grant GGA / GGD i gyflogi Catherine Martin yn ychwanegol i weithio gyda unigolion a grwpiau bach o blant .

**Derbyniwyd cefnogaeth [yn rhithiol gan amlaf] gan :**

Einir Rees – Tim ABC
Einir Owen – Athrawes ADY
Ceri Tomos a Tim Diabetes – Hyfforddiant ar lein / cyfarfod
Tim Trac Gwynedd
Uned Anhwylderau Iaith Ysgol Cymerau
Dr Einir Davies a Ruth Morris
Iona Rees [seicolegydd addysg ] – adolygiadau ADY
CMP a CH – trafodaethau ADY rheolaidd
Panel Adolygiadau Dalgylchol ADY

**Trefniadau Mynediad Plant ag ADY i'r Ysgol**

Derbynnir unrhyw blentyn ag ADY sy'n byw tu allan i ddalgylch yr ysgol os nad yw rhifau'r ysgol dros y rhif mynediad yn barod [ sef trigian yn achos Ysgol Bro Plenydd] ac fod ei rieni yn dymuno iddo fynychu yr ysgol.

Pan dderbynnir plentyn newydd i'r ysgol o ysgol arall yng Ngwynedd neu Mon gwneir defnydd trwyadl o'r cofnodion a ddaeth gydag ef o'i ysgol

flaenorol i ganfod sut fath o ddarpariaeth addysgol sydd ei angen ar ei gyfer. Os bydd gan y plentyn CDU bydd y cynllun yn parhau i gael ei gynnal.
Os y trosglwyddir plentyn o Sir arall yng Nghymru a bod tystiolaeth SIMS fod gan y plentyn CDU yn ei gyn ysgol yna bydd trafodaethau yn parhau mewn panel yng Ngwynedd.
Os y trosglwyddir plentyn o ardal yn Lloegr ac fod yr Awdurdod Lleol yn Lloegr yn cadw EHC i'r plentyn mae'n **rhaid** i'r ysgol baratoi CDU.

**Mynediad ar gyfer disgyblion ag Anabledd Corfforol**

Nid yw'r ysgol na'r adeilad wedi ei addasu yn arbennig ar gyfer disgyblion Anabl nac yn ysgol ddatganedig ar gyfer plant ac anableddau corfforol yn y dalgylch. Serch hynny, gan fod yr adeilad ar un llawr, gellir derbyn disgyblion a rhai anabledd corfforol e.e disgybl mewn cadair olwyn.

**ADRODDIAD AR WEITHREDU CYNLLUN OL AROLWG**

Adroddwyd y canlynol fel argymhellion yn adroddiad yr arolygwyr :

A1 Lleihau'r bwlch rhwng perfformiad merched a bechgyn ar y lefelau uwch yng nghyfnod allweddol 2
A2 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol ar draws yr holl feysydd dysgu
A3 Rhannu arferion gorau addysgu ar draws yr ysgol
A4 Parhau i wella cyfraddau presenoldeb y disgyblion

Lluniodd yr ysgol gynllun gweithredu oedd yn dangos sut y byddai yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Cafodd cynnydd yr ysgol ei fonitro gan yr Awdurdod Addysg Lleol. Cyflwynodd yr ysgol / Awdurdod adroddiad i Estyn yn Ebrill 2016 yn egluro sut yr oedd wedi mynd ati i weithredu yr argymhellion. Cafwyd ymateb cadarnhaol gan Estyn yn dilyn derbyn yr adroddiad.

**AROLWG 2015 - Mr Kevin Davies**

Cynhaliwyd arolwg byr ar yr ysgol am ddeuddydd rhwng Chwefror 25ain a'r 26ain, 2009. Cynhaliwyd yr arolwg gan Partneriaeth Dyfri a'r arweinydd tim oedd Mr Kevin Davies. Aelodau eraill o'r tim oedd William Griffiths fel Arolygydd Tim, Glenda Jones fel Arolygydd Lleyg, Derfel Griffiths fel Arolygydd Cymheiriaid. Cynhaliwyd cyfarfodydd y tim arolygu gyda'r rhieni a'r corff llywodraethol ac fe adroddwyd yn ol i'r pennaeth a chadeirydd y corff llywodraethol. Derbyniodd yr ysgol Da am Berfformiad

Presennol yr ysgol a Da am Rhagolygon Gwella yr Ysgol.
Dosbarthwyd copi byr o'r adroddiad i bob teulu gyda addewid o gopi llawn i bawb os y dymunwyd.

**PRESENOLDEB 2021 – 2022**

**Targed Presenoldeb y flwyddyn oedd 96%**

Presenoldeb Blwyddyn : 91.92%
Canran presenoldeb bechgyn – **91.82%**
Canran presenoldeb merched – **92.04%**

• Absenoldebau: 8.08%
• Absenoldebau heb ganiatad: 0.134%
Cyrraedd yn hwyr – 0.017%
Absenoldebau heb eglurhad – 0.692%

Er mwyn cadw cyfraddau absenoldebau nas awdurdodwyd yn isel a phresenoldeb yn uchel cymerodd yr ysgol y camau canlynol :
Llythyru a rhieni ar ddechrau tymor i sicrhau fod y drefn bresennol o gofnodi absenoldebau sef drwy lythyr neu alwad ffon yn cael ei gadw.
Bu'r ysgol yn monitro presenoldeb yn rheolaidd i weld a oes patrwm yn datblygu mewn rhai achosion.
Gweithredwyd ar unrhyw batrymau sy'n amlygu eu hunain drwy gydweithio a'r Swyddog Lles Addysg.

**Llawlyfr yr Ysgol :**
Mae Llawlyfr yr Ysgol ar gael yn ddwyieithog ar wefan yr ysgol Mae copi papur ar gael yn yr ysgol drwy gais.

**Cyfleusterau Toiledau Ysgol Bro Plenydd**
Yn unol a Rheoliadau Addysg 1999 [Mangreoedd Ysgol] mae'r ysgol yn darparu toiledau a basnau ymolchi ar gyfer dysgwyr fel a ganlyn :
Disgyblion dros 5 oed : 1 toiled / basn ymolchi ar gyfer pob 20 disgybl
Mae 3 doiled a 2 basn ymolchi
Disgyblion o dan 5 oed : 1 toiled / basn ymolchi ar gyfer pob 10 disgybl.
Mae 3 toiled a 2 basn ymolchi ar gyfer disgyblion 5-7 oed
Mae 2 dioled a 2 basn ymolchi ar gyfer genethod 7 – 11 oed

Mae 2 unraniad ac 1 toiled ar gyfer bechgyn 7 – 11 oed
Glanheir toiledau yr ysgol yn ddyddiol.
Yn ystod Gwyliau'r Haf 2013 fe uwchraddwyd toiledau y bechgyn a'r genethod hyn.
Yn ystod Gwyliau'r Haf 2018 uwchraddwyd toiledau y Babanod

**Hyrwyddo Bwyta ac Yfed Iach**
Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach.
Mae posteri bocs bwyd iach yn cael eu harddangos yn yr Ystafell Fwyta
Mae Ffynnon Ddwr yn yr ysgol ac anogir disgyblion i yfed dwr yn rheolaidd drwy'r flwyddyn.
Mae'r ysgol yn dilyn bwydlen iach Ysgolion Gwynedd sydd wedi ei sefydlu ar ymgyrch Blas am Oes y Llywodraeth

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Cymru 2013, nid oes yn rhaid i Gyrff Llywodraethwyr ysgol gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Bellach, mae'r Ddeddf yn caniatau i rieni ofyn i gael cyfarfod â'r Llywodraethwyr am hyd at dri cyfarfod y flwyddyn ar ôl cael ei ddeisebu. Er mwyn cynnal y cyfarfod, mae'n rhaid i isafswm o rieni 10% o'r disgyblion sydd wedi'u cofrestru arwyddo'r ddeiseb gan nodi pam eu bod eisiau cyfarfod. Rhaid bod y cyfarfod y gofynnir amdano yn cael ei gynnal at ddibenion trafod mater sy'n ymwneud â'r ysgol.

Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yng Nghymru ynghylch y ddyletswydd i gynnal cyfarfodydd gyda rhieni

Ni dderbyniwyd cais gan rieni i gynnal cyfarfod gyda'r Llywodraethwyr o dan y Ddeddf uchod.

**ATODIADAU**

Cyllid ysgol

**CH Rhagfyr 2022**